

CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod llawn o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Bodorgan ar 29 IONAWR 2020.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Ms Sharon Barton, Mr Myfyr Davies, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, Mr Gareth Evans, Mr Jeff Hughes, Mr Selwyn Williams, Cynghorydd Sirol Mr Peter Rogers a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwr Sirol Mr Bryan Owen.

3 CROESO

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 DATGAN DIDDORDEB

4.1 Nid oedd neb yn datgan diddordeb personol mewn unrhyw eitem rhestredig.

5 CYWIRO & CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD.

5.1 Cyfarfod Misol 25/11/2019 – cynnig (AH), eilio (MD) ei bod yn rhai cywir.

6 MATERION YN CODI.

6.1 **Safle Maes Glas, Bethel** – penderfynwyd aelodau y dylai ail-agor trafodaethau gyda'r Cyngor Sir. Y Clerc a'r Cadeirydd i fynd ati a darparu llythyr perthnasol atynt.

6.2 **Safle Mynedfa & Lamp Stryd, Stâd Morawelon, Malltraeth** – nodwyd fod angen sylw i'r mater yma cyn gynted a phosib. Y Clerc i lunio llythyr i'r Cyngor Sir gyda cymorth y Cadeirydd a Cynghorwr Sirol Bryan Owen.

6.3 **Adroddiad Cyfarfod gyda Pwyllgor Safonau y Cyngor Sir** – roedd pob un aelod wedi derbyn copi yr adroddiad ac dywedodd y Cadeirydd a'r Clerc fod rhaid i'r aelodau dwyn sylw difrifol at sylwadau yr adroddiad.

6.4 **Offer Cae Chwarae** – nodwyd fod y Cyngor wedi gwerthu yr offer ac wedi derbyn £250.00 amdanynt. Felly nid oedd angen archwiliad ROSPA eleni ac y bydd rhaid gadael i'r cwmni yswiriant nad oeddynt yn eiddo bellach i'r Cyngor Cymuned.

Arwyddo.....

Tudalen 1.

7 MATERION CYLLID

- 7.1 Cytunwyd gyda rhestr taliadau a derbyniadau y Cyngor am fisoedd Tachwedd & Rhagfyr 2019 yn unfrydol ac fe arwyddodd y Cadeirydd y ddogfen cysoni yn ogystal a datganiad y banc fel cadarnhad.
- 7.2 Cytunwyd yn unfrydol gyda adolygiad a codi ffioedd claddu Mynwent Trefdraeth a diolch i'r Cadeirydd am ei waith. (MD/GL).
- 7.3 Cytundeb Torri Gwair y Fynwent & Llwybrau – cytunwyd gyda amcancyfrif Môn Grass Cutting Services ac ymestyn y gytundeb hyd at 2023.
- 7.4 Roedd y Clerc wedi paratoi adroddiad llawn o wariant a derbyniadau 2019/2020 y Cyngor hyd at 31.3.2020 yn ogystal a nodiadau a gwariant gyllideb disgwyliadwy ar gyfer gosod y priseb am 2020/2021. Roedd yn argymhellu y dylai cadw lefel y priseb i £11,500 am y flwyddyn er mwyn diogelu yr hyn oedd angen ei wario ac yn dyledus i Swyddfa Archwilio Cymru, odditeu £3,000. Roedd hefyd yn ymwybodol fod rhaid sicrhau fod cronfa fach wrth gefn fel mesur rhagofalus a hefyd nodi fod £12,000 o'r £17,500 sydd yn weddil ar hyn o bryd wedi ei glustnodi ar gyfer adeiladu y Ganolfan Gymunedol newydd arfaethedig yn y pentref. **Cynnig gan MD ac eiliwyd gan GL fod y Cyngor yn derbyn yr argymelliad ac fe cytunwyd yr aelodau yn unfrydol.**
- 7.5 Cytunwyd aelodau o gario ymlaen o benodi Cwmni I G Jones & Co, Cwmni Cyfrifwyr Siartredig, Llangefni fel Archwilydd Mewnol y Cyngor Cymuned
- 7.6 Cytunwyd talu'r billau canlynol:
- 1 **Welsh Audit Office - £288.90 (Archwiliad 2017/18)**
 - 2 **Welsh Audit Office - £264.20 (Archwiliad 2018/19)**
- 7.7 **Capel Bethel** – nodwyd llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan Ysgrifennydd y Capel yn diolch i'r Cyngor am y cyfraniad rhoddwyd tuag at cynnal a chadw'r fynwent yn y Capel.
- 7.8 **Archwiliad Allanol** – roedd y Clerc bellach wedi derbyn pob un adroddiad terfynnol ers 2014 ac roedd pob un aelod wedi derbyn copi ohonynt. Roedd hefyd wedi diweddarau'r wefan a gobeithio fod gwersi wedi ei ddysgu yr adroddiadau.

Arwyddo.....

Tudalen 2.

8 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.

Cafwyd adroddiad byr ac ar lafar gan y Cadeirydd:

- 8.1 Bu'r pythefnos diwethaf yn erchyll.
- 8.2 Rhoddodd adroddiad ar Gyfarfod Malltraeth Ymlaen ac roedd yn bryderus iawn ynghylch ymddygiad rhai unigolion a'u ymyriant allanol wrth sefydlu grŵp cymorth ar wahân er mwyn cadw'r adeilad presennol. Bydd adroddiad mwy manwl yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

9 GOHEBIAETH

9.1 Bil Llywodraeth Leol & Etholiadau (Cymru) - dosbarthwyd copi i pob aelod er gwybodaeth yn unig.

9.2 Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref & Chymuned - disgwylir derbyn cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 23 Ionawr 2020 a oedd wedi ganolbwyntio ar Cyllideb Refeniw & Chyfalaf y Cyngor Sir ar gyfer 2020/21 a Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2020 a rôl Pencampwyr Iaith Cyngorau Tref & Chymuned

10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - MIS MAWRTH (17/3/2020).

10.1 Clowyd y cyfarfod am 8:15yh.

Arwyddo.....Cadeirydd.....Dyddiad.

Tudalen 3.